

## Echel 4

### DEN 58 **CADWYN CLWYD** **ARLOESIAD SIR DDINBYCH**

**Cyfanswm Cost y Prosiect £2,365,000**

**Mae Arloesiad Sir Ddinbych â thri o brif amcanion**

1. Hyrwyddo arloesiad, entrepreneuriaeth, ac arwahanrwydd ymysg cymunedau Sir Ddinbych wledig a Sir Fflint wledig
2. Diogelu asedau naturiol, diwylliannol a threftadaeth Sir Ddinbych wledig a Sir Fflint wledig ac uchafu eu potensial economaidd ar gyfer busnesau lleol a chymunedau.
3. Datblygu ac annog mwy o gydlynrwydd cymunedol.

**Bydd gweithgaredd y prosiect a ariennir drwy DEN 58 a FLI 57 yn:**

Datblygu agwedd gydweithiol tuag at farchnata cynnyrch lleol ac ymchwil a datblygu cynnyrch newydd

Diogelu asedau naturiol a threftadaeth ddiwylliannol yr ardal wledig a'u defnyddio i hyrwyddo'r cynnig twristiaeth wledig i elwa busnesau lleol a chymunedau.

Annog generadiad pŵer micro ac arbrofion ynni amgen

Cynnal gwrychoedd a ffiniau traddodiadol

Datblygu ysgolion a thafarnau fel canolfannau cymunedol

Uchafu'r defnydd o gyfleusterau cymunedol

Datblygu cludiant cymunedol cynaliadwy

Canolbwyntio ar ddatblygiad cymunedol

**Am wybodaeth bellach, cysylltwch â:  
Cadwyn Clwyd  
01824 705802**



Partneriaeth Cynllun Datblygiad Gwledig Sir Ddinbych  
Denbighshire Rural Development Plan Partnership

# **Cynllun Datblygu Gwledig**

# **Cynllun Busnes 2**

# **Prosiectau Cymeradwy**

# **2011-2013**



Cranfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu  
Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi  
mewn Ardaloedd Gwledig  
The European Agricultural Fund for  
Rural Development: Europe Investing in  
Rural Areas



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

### Echel 3

## **Creu a Datblygu Busnes Sir Ddinbych Wledig**

Nod y prosiect hwn fydd cynorthwyo ffurfiad a thwf busnes drwy ddau o weithgareddau allweddol:

- Cyngor / adolygiadau busnes ac adolygiadau TG a grantiau (cyfalaf) bychan ar gyfer microfentrau gwledig (Gan Gyngor Sir Ddinbych)
- Cynllun Bwrsariaeth Menter Wledig Sir Ddinbych ar gyfer unigolion sydd rhwng 19-30 oed gyda chyngor busnes a mentora. (Gan Gadwyn Clwyd).

Bydd y grantiau wedi eu hanelu at microfentrau gwledig sy'n cyflogi 9 neu lai ac sy'n darparu grant cyfalaf o 50% gan roi uchafswm o £5,000 lle bydd hynny'n briodol ond bydd yn targedu prosiectau sy'n £2,499 neu lai sy'n methu â chyrchu Cronfa Fuddsoddi Leol Gogledd Cymru.

Fe gynigir cymorth pellach / ôl-ofal hefyd yn dilyn dyfarnu grant i gynorthwyo'r cwmni i uchafu eu buddsoddiad a thyfu'r busnes. Bydd cynllun Ymarfer Mentrau Gwledig Sir Ddinbych yn targedu'r rheiny sydd ddim yn ddi-waith ond sy'n dymuno dechrau microfenter a cholli eu budd-daliadau wrth wneud eu cynlluniau cychwynnol i ddod i mewn i'r farchnad lafur.

Bydd cynllun Bwrsariaeth Menter Sir Ddinbych Wledig yn darparu cyfleoedd economaidd i bobl ifanc, y tangyflogedig a grwpiau cymunedol yn Sir Ddinbych wledig. Bydd yn annog entrepreneuriaeth mewn pobl ifanc a'r di-waith neu'r rheiny sy'n wynebu diweithdra. Mae'n adeiladu eu gallu i ddechrau busnes, ac yn eu darparu â'r gefnogaeth a'r cymorth ariannol i ddechrau eu menter.

Bydd hyn yn ei dro'n darparu cyfleoedd ar gyfer ystod ehangach o gyfleoedd cyflogaeth daledig well, codi cyfraddau gweithgaredd economaidd a gwella gwasanaethau prif lif ychwanegol gan ddiogelu hyfywedd yr ardal wledig a'i chymunedau.

**Am wybodaeth bellach, cysylltwch â:  
Cyngor Sir Ddinbych  
Kirsty Davies  
01824 712115**

**Neu Cadwyn Clwyd  
01824 705802**

### Echel 3

## **Twristiaeth Werdd a Chyrchfan Sir Ddinbych – Anogaeth Gweithgareddau Twristiaeth**

Bydd y prosiect yn cefnogi twristiaeth werdd, treftadaeth a thwristiaeth ddiwylliannol o fewn Sir Ddinbych wledig yn canolbwyntio ar yr egwyddorion sy'n dod dan EUROPARC. Bydd y prosiect yn cefnogi'r cyfuniad o weithgareddau a darpariaethau yn yr ardal e.e. beicio mynydd / llwybrau beicio gyda darparwyr llety, rhwydweithiau llwybrau sy'n gysylltiedig â busnesau lleol, cerdded sy'n gysylltiedig â digwyddiadau diwylliannol. Bydd y Statws Siarter EUROPARC a gafodd ei ddynodi'n ddiweddar ar gyfer AHNE Bryniau Clwyd yn gweithredu fel ffocws i'r prosiect, a bydd egwyddorion y Siarter yn tanategu'r prosiect ac fe gaiff ei gymhwyso i'r Sir Ddinbych ehangach i ddatblygu twristiaeth gynaliadwy.

Bydd y prosiect yn cynyddu nifer yr ymwelwyr i'r sir, yn cynyddu hyd eu harhosiad, yn gwella eu mwynhad a'u dealltwriaeth ac yn annog mwy o ymweliadau gydol y flwyddyn. Bydd y prosiect yn defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu newydd ac arloesol i wella cyrchiad i wybodaeth ac i ddatblygu dulliau dehongli perthnasol i hyrwyddo treftadaeth ddiwylliannol y sir.

Bydd y Prosiect hefyd yn darparu cyfleoedd ar gyfer datblygiad economaidd twristiaeth yn y dyfodol drwy gefnogi mentrau ar lefel leol sy'n hyrwyddo ac yn gwella profiad yr ymwelydd. Bydd yn ymestyn y tymor twristiaeth drwy ddatblygu atyniadau twristiaeth a dehongliad a chyfleoedd twristiaeth werdd.

Bydd y prosiect yn cynorthwyo gyda sefydlu cymdeithas dwristiaeth sir gyfan ac yn cefnogi digwyddiadau rhwydweithio allweddol i annog a datblygu cynnyrch a gwasanaethau twristiaeth.

**Am wybodaeth bellach, cysylltwch â:  
Cyngor Sir Ddinbych  
Hawys Lebbon  
01824 708238**

**Neu Cadwyn Clwyd  
01824 705802**